# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Cymhwyso i Gymru y Mesurau Ardrethu Annomestig a Gyhoeddwyd yn yr Adroddiad cyn y Gyllideb**

**Dyddiad:** **28 Tachwedd 2008**

**Gan:** **Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**

---

Rwyf yn ysgrifennu i'ch hysbysu am fy mhenderfyniad i wneud deddfwriaeth fydd yn gymwys i Gymru mewn perthynas â dau fesur ardrethu annomestig a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys yn yr Adroddiad Cyn y Gyllideb ar 24 Tachwedd 2008.

Cyn bo hir, byddaf yn gwneud deddfwriaeth i:

(i) Gynyddu'r trothwy gwerth ardrethol sy'n eithrio eiddo gwag rhag talu ardrethi o £2,200 i £15,000 o 1 Ebrill 2009 tan 31 Mawrth 2010.

Bydd perchnogion y rhan fwyaf o eiddo busnes gwag yng Nghymru yn elwa ar hyn drwy arbed hyd at £7,355 ar eu biliau ardrethu a bydd yn eu helpu i reoli pwysau tymor byr o ganlyniad i amgylchiadau anodd presennol y farchnad eiddo. Yn yr hirdymor mae'n iawn i godi ardrethi pan fydd eiddo yn wag gan fod hyn yn creu mwy o gymhelliant i ailosod ac ailddefnyddio eiddo gwag. Ond ni fyddai'n ddefnydd effeithiol o adnoddau i ddefnyddio arian Llywodraeth y Cynulliad i gymorthdalu perchnogion eiddo gwag pan fydd cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer hyn yn dod i ben yn 2011.

(ii) Efelychu'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn Lloegr i ganiatáu i fusnesau dalu rhai biliau ardrethi busnes wedi'u hôlddyddio fesul tipyn heb log am gyfnod o hyd at wyth mlynedd. Bydd hyn yn cael ei weithredu mewn perthynas â rhestr ardrethu 2005 (y cyfnod ailbrisio diwethaf) yn achos eiddo busnes a fyddai wedi bod yn atebol am ardrethi ers 2005 ond na chawsant eu nodi a'u rhoi ar y rhestr tan ar ôl iddi gael ei llunio. Yn yr achosion hyn, ôlddyddir biliau ardrethi busnes i 2005 a'u hanfon allan i'w talu ar unwaith.

Bydd hyn yn helpu’r busnesau dan sylw gyda’u llif arian a bydd meddiannwyr porthladdoedd y mae’r adolygiadau diweddar o ardrethi wedi effeithio arnynt ar eu hennill.

Bydd y mesurau hyn yn gwella ymhellach y pecyn cymorth sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru drwy ddarparu cymorth i fusnesau yn ystod yr adegau anodd hyn i’r economi.